

Datganiad Polisi ar Ddiogelu Gwybodaeth

Er mwyn amddiffyn ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a rhanddeiliaid eraill, ac er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, mae Dŵr Cymru wedi ymrwmo i ddiogelu'r wybodaeth a'r systemau yr ydym yn dibynnu arnynt trwy sicrhau:

Cyfrinachedd – atal mynediad diawdurdod at wybodaeth ac atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu heb awdurdod.

Integrity – atal gwybodaeth rhag cael ei diwygio heb awdurdod neu'n anfwriadol, ac atal systemau rhag cael eu rheoli heb awdurdod neu'n anfwriadol.

Argaeledd – sicrhau bod y wybodaeth a'r systemau'n wydn a'u bod ar gael pan fo angen i'r rhai ag awdurdod.

Diogelwch – sicrhau diogelwch pobl ac amgylcheddau trwy weithredu systemau yn y ffordd gywir o dan reolaeth defnyddwyr awdurdodedig.

Rhaid i bob gweithiwr, contractwr, a phartner gydymffurfio â'n polisiau diogelwch, a'r gweithdrefnau a'r safonau sy'n eu cynnal. Mae'r rhain yn berthnasol i bob amgylchedd gwybodaeth a system, gan gynnwys yr holl dechnolegau gwybodaeth (IT) a thechnolegau gweithredol (OT). Nod ein Polisi yw sicrhau bod:

- Ein systemau a'n defnydd o wybodaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol ac â gofynion eraill.
- Ein cydweithwyr yn ymwybodol o'r gofynion diogelwch a'u bod yn cael hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i ddiogelu'r wybodaeth a'r systemau y maent yn eu defnyddio yn eu gwaith.
- Risgiau i ddiogelwch yn cael eu clustnodi, eu cofnodi a'u rheoli yn unol â'r broses gorfforaethol ar gyfer rheoli risgiau.
- Unigolion yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r wybodaeth a'r systemau y maent yn gyfrifol amdanynt, a bod fframwaith yn bodoli i bennu amcanion ym maes diogelu gwybodaeth ar gyfer y swyddogaethau a'r rolau perthnasol.
- Asesiad risg yn cael ei gyflawni ar yr holl systemau gwybodaeth a rheoli a bod y systemau'n cael eu cymeradwyo gan dîm Diogelu Gwybodaeth Dŵr Cymru cyn eu rhoi ar waith.
- Mynediad yn cael ei ganiatáu at systemau a gwybodaeth ar sail angen i'r busnes.
- Pob digwyddiad ym maes diogelwch yn cael ei riportio, a bod asesiad risg yn cael ei gyflawni a'i fod yn cael ymateb cymesur.
- Gennym drefn o wneud gwelliannau parhaus i'n System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth, a'n bod yn defnyddio profion annibynnol er mwyn dangos pa mor effeithiol yw ein dulliau rheoli wrth atal hacio.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cydnabod pwysigrwydd diogelu gwybodaeth a systemau. Rhoddwyd y dasg o weithredu trefniadau rheoli risg a fydd o gymorth wrth ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid trwy'r busnes cyfan i'r Prif Swyddog Diogelu Gwybodaeth.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol neu'n gynt na hynny os bydd newid arwyddocaol yng ngofynion y busnes.



Peter Perry

Prif Weithredwr | Dŵr Cymru

Ebrill 2024